# Recordio deunydd sain a fideo er defnydd newyddiadurol

## Trosolwg

Mae'r Safon hon yn ymwneud â recordio deunydd sain a fideo effeithiol, mewn stiwdio neu ar leoliad i'w ddefnyddio ar wahanol lwyfannau.

Gall y cynnyrch terfynol amrywio o fod yn ddeunydd hyrwyddo a marchnata i newyddiaduriaeth fideo.

Mae hyn yn ymwneud â pharatoi ar gyfer recordiad a dewis a defnyddio'r cyfarpar a'r technegau recordio cywir, i recordio sain a fideo o amrywiaeth o ffynonellau, ar y ffurf gywir ac i'r ansawdd a safon ofynnol.

Mae'n ymwneud ag adnabod diffygion a methiannau mewn cyfarpar a delio â nhw.

Mae'r Safon hon yn berthnasol i bawb sy'n creu deunydd sain a fideo.

## Meini prawf perfformiad

*Rhaid i chi allu:*

1. gwirio eich bod wedi derbyn cyfarwyddyd cyflawn ynghylch y dasg neu stori ynghyd ag unrhyw ofynion o ran recordio
2. asesu lleoliad o ran ei addasrwydd a mynd ati i drefnu lleihau'r problemau yn ymwneud â synau ymwthiol ac annisgwyl neu ymyriadau gweledol fel sy'n briodol
3. gwirio cyfarpar i ofalu ei fod yn gweithio'n ddigonol
4. dewis meicroffonau priodol ar gyfer yr amodau penodol, neu ganiatáu priodweddau penodol meicroffonau unigol wrth recordio
5. gwirio lefelau recordio a monitro mewnbynnau er mwyn gofalu fod uchder y sain yn briodol
6. gwirio gosodiadau'r camera, cynnal gwiriad 'cydbwysedd gwyn' cyn mynd ati i recordio a monitro lefelau sain
7. recordio deunydd ar y cyfrwng a ffurf briodol
8. adnabod, a delio â, methiannnau a diffygion mewn cyfarpar yn ddi-oed
9. dewis yn ofalus beth fyddwch chi'n ei recordio gan ystyried faint o'r deunydd gwreiddiol y byddwch yn ei recordio gaiff ei ddefnyddio yn y cynnyrch terfynol
10. sicrhau eich bod yn meddu ar y deunydd priodol a fydd yn gwneud y broses olygu mor rhwydd â phosibl, gan ystyried unrhyw broblemau all godi yn ystod y broses recordio
11. cywiro neu gofnodi unrhyw ddiffygion yn y sain, ansawdd y llun neu fethiannau yn y system neu drafferthion mecanyddol heb unrhyw oedi
12. rhoi enw ar, labelu, cadw a storio deunyddiau sain a gweledol yn unol â'r protocolau priodol
13. gofalu nad ydy eich gweithrediadau ddim yn achosi unrhyw beryglon diogelwch i eraill
14. cwblhau'r gwaith recordio deunydd ymhen y graddfeydd amser penodol
15. ffeilio eich deunydd o'r lleoliad yn unol â'r gofynion ar gyfer y llwyfannau y mae wedi'i fwriadu

## Gwybodaeth a dealltwriaeth

*Mae angen i chi wybod a deall:*

1. arddull yr asiant comisiynu, rhaglen neu sianel a'r chynulleidfaoedd targed ar gyfer y deunydd
2. y cyfarwyddyd golygyddol ar gyfer y recordiad, manylion hanfodol y stori ac amser a hyd bwriadedig y darllediad
3. egwyddorion sylfaenol sain, llun, goleuadau ac acwsteg
4. y prif gyfyngiadau wrth recordio deunydd sain a gweledol
5. priodweddau gweithredu recordwyr cludadwy a chyfarpar recordio'r stiwdio, a cyfyngiadau'r cyfarpar sydd ar gael i chi
6. y gwahaniaeth rhwng rheoli lefel yn awtomatig ac â llaw a'u goblygiadau mewn gwahanol sefyllfaoedd
7. sut i brofi a gwirio cyfarpar
8. sut i adnabod problemau gyda chyfarpar recordio a beth i'w wneud i'w cywiro
9. priodweddau acwstig unrhyw stiwdio neu leoliad byddwch chi'n ei ddefnyddio
10. y problemau ynghlwm â lefelau golau, sŵn gwynt, synau annisgwyl a sŵn amgylchol ar leoliad
11. goblygiadau recordio deunydd i'w olygu neu recordio ar gyfer ei ddarlledu fel ei fod yn fyw
12. y math ac amrywiaeth o ddeunydd sydd angen ichi ei recordio er mwyn hwyluso'r broses olygu
13. y protocolau perthnasol ar gyfer rhoi enw ar, labelu a chadw deunydd sain a gweledol
14. sut i ffeilio'ch deunydd o'r lleoliad yn ôl i'ch stiwdio, gan gynnwys anfon sain a llun byw a gofynion y llwyfannau rydych yn ffeilio ar eu cyfer

Recordio deunydd sain a fideo er defnydd newyddiadurol

| | |
|---|---|
| **Datblygwyd gan** | ScreenSkills |
| **Dyddiad cymeradwyo** | 31 Maw 2019 |
| **Dyddiad Adolygu Dangosol** | 30 Maw 2022 |
| **Dilysrwydd** | Ar hyn o bryd |
| **Statws** | Gwreiddiol |
| **Sefydliad cychwynnol** | ScreenSkills |
| **RCU gwreiddiol** | SKSJ16 |
| **Galwedigaethau perthnasol** | Cyfryngau a chyfathrebu, Gweithwyr Proffesiynol Cyswllt Cyfryngau |
| **Cyfres/Set** | Newyddiaduriaeth |
| **Geiriau Allweddol** | Sain, Gweledol, Newyddiaduriaeth |